
| PWYLLGOR CYNLLUNIO | DYDDIAD: 09/11/2015 |
|---|---|
| ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO AC AMGYLCHEDD | CAERNARFON |

**Rhif**: **10**

**Rhif y Cais / Application Number : C15-0810-40-LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**



| | |
|---|---|
| Cais Rhif: | C15/0810/40/LL |
| Dyddiad Cofrestru: | 10/08/2015 |
| Math y Cais: | Llawn - Cynllunio |
| Cymuned: | Llannor |
| Ward: | Abererch |
| Bwriad: | ADEILADU FFERM SOLAR GYDA GWAITH CYSYLLTIOL I GYSYLLTU A'R RHWYDWAITH DOSBARTHU TRYDAN, FFORDD FYNEDIAD, COMPOWND ADEILADU DROS DRO, FFENSYS DIOGELWCH A GWELLIANNAU ECOLEGOL A TIRWEDDU |
| Lleoliad: | TIR FFERM LLWYNDYRYS FARM, Y FFOR, PWLLHELI, LL536RH |

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** CANIATAU GYDAG AMODAU

## 1. Disgrifiad:

1.1 Mae'r cais yn ymwneud a sefydlu fferm solar ar dir Fferm Llwyndyrys. Fel rhan o'r bwriad bydd angen ymgymryd â gyda gwaith cysylltiol i gysylltu â'r rhwydwaith ddosbarthu trydan, creu ffordd fynediad a chompownd dros dro, codi ffensys diogelwch ac ymgymryd â gwelliannau ecolegol a thirweddu.

1.2 Mae safle'r cais yn mesur oddeutu 11.56 hectar (28.56 acer) ac mae'n cynnwys chwe cae amaethyddol graddfa 3 a 4. Caeau pori gwastad a chaeau gyda llethr ysgafn i'r de ydynt yn gyffredinol wedi eu lleoli yng nghefn gwlad agored. Ceir rhes drwchus o goed aeddfed i'r dwyrain o'r safle a gwrychoedd o amgylch mwyafrif o ffiniau'r caeau. Rhed ffordd sirol dosbarth 3 i'r gogledd o'r safle, gyda'r cae agosaf i'r lon yn weladwy. Gyfochrog a ffin gorllewinol y safle ceir clwstwr o gaeau wedi eu hadnabod fel safle bywyd gwyllt arfaethedig. Mae'r safle o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llyn ac Ynys Enlli ac mae'r AHNE oddeutu 2km i'r gogledd orllewin. Saif adeiladau fferm gradd II rhestredig Llwyndyrys oddeutu 190m i'r gogledd orllewin o'r safle. Mae'r safle oddeutu 500m oddi wrth y gyffordd gyda ffordd ddosbarth 1 yr A499.

1.3 Fe fyddai'r parc solar arfaethedig yn cynhyrchu oddeutu 4,450 Mw o drydan yn flynyddol. Mae'r cais yn cynnwys yr elfennau isod:

- Rhesi o baneli PV wedi eu gosod ar draws y chwe cae o'r gorllewin i'r dwyrain. Fe osodir y paneli ar fframweithiau dur i uchder o 2.4m yn uwch na lefel y ddaear ac ar ongl graddfa lorweddol o 10-15. Bydd bwlch rhwng y rhesi yn amrywio o 3m - 7m yn ddibynnol ar natur a goleddf y dopograffi.
- 3 gorsaf gwrthdroi (inverter) sy'n mesur 16 medr o hyd, 2.5 medr o led ac 2.4 medr o uchel. Mae'r strwythurau ar ffurf cabanau o liw gwyrdd tywyll.
- Bwriedir lleoli un is-orsaf (DNO) newid gêr ar y safle, ble rheolir a gwarchodir y cyfarpar trydanol. Byddai'r is-orsaf yn mesur 5 medr wrth 4.5 i uchder o 2.3 medr mewn lliw gwyrdd.
- Caban Cwsmer i'r fferm solar sydd hefyd yn cynnwys cyfarpar diogelwch trydanol. Byddai'r caban eto o liw gwyrdd ac yn mesur 10m o hyd, 2.5 m o led ac 3.1m o uchder ac wedi ei leoli ar ran mwyaf deheuol y safle.
- Un ystafell reoli ar ffurf caban gwyrdd yn mesur 3.7m wrth 2.4m o hyd ac 2.3m o uchder.
- Ffens diogelwch 2 fedr o uchel o amgylch y safle. Byddai'r ffens ar ffurf ffens bren a weiren. Bwriedir cynnwys gatiau bychan ar gyfer anifeiliaid bach yma ac acw yn y ffens.

- Camerâu cylch cyfyng ar bolyn fyny at 2.5m o uchel o gwmpas yr holl safle.
- Traciau i wasanaethu'r datblygiad.
- Compownd adeiladu dros dro i'w leoli ger y fynedfa yn ystod y cyfnod adeiladu i gynnwys safle parcio, swyddfa a sied storio offer.

1.4 Mae'r dogfennau a restrir isod wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais:

- Datganiad Cynllunio, Dylunio a Mynediad
- Asesiad Tirlun ac Effaith Gweledol
- Ffotogyfosodiadau o'r safle
- Datganiad Trafnidiaeth
- Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol
- Arolwg Coed ac asesiad effaith a chynllun gwarchod coed
- Strategaeth Ddraenio
- Asesiad Effaith Sŵn Amgylcheddol
- Asesiad Ddesg Treftadaeth Ddiwylliannol
- Asesiad Dosbarthiad Tir Amaethyddol
- Astudiaeth fflachio a llacharedd (glint and glare)
- Datganiad o ymglymiad cymunedol.

1.5 Mae'r bwriad yma eisoes wedi ei sgrinio o dan gyfeirnod C15/0754/40/SC ac C15/0372/40/SC a chadarnhawyd nad oedd angen Asesiad Effaith Amgylcheddol yn yr achos yma.

1.6 Cyflwynir y cais i Bwyllgor oherwydd graddfa'r datblygiad sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

**2.2 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

POLISI STRATEGOL 9 – YNNI – Caniateir cynlluniau i ddarparu ynni o ffynonellau adnewyddadwy na fyddai'n niweidio'r amgylchedd neu fwynderau trigolion cyfagos mewn modd arwyddocaol.

A1 ASESIADAU AMGYLCHEDDOL NEU ASESIADAU EFFEITHIAU ARALL - Sicrhau fod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu gyda'r cais cynllunio ynglŷn ag unrhyw effeithiau amgylcheddol neu eraill sylweddol tebygol ar ffurf asesiad amgylcheddol neu asesiadau o effeithiau eraill.

A3 EGWYDDOR RAGOFALUS - Gwrthod cynigion os oes unrhyw bosibilrwydd o ddifrod difrifol neu anwrthdroadwy i'r amgylchedd neu'r gymuned os na ellir dangos heb amheuaeth ar ddiwedd asesiad priodol o'r effeithiau y gellir negyddu neu liniaru'r effaith.

B3 DATBLYGIADAU SY'N EFFEITHIO AR OSODIAD ADEILAD RHESTREDIG Sicrhau nad yw cynigion yn cael effaith ar osodiad Adeiladau

Rhestredig oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i warchod cymeriad arbennig yr Adeilad Rhestredig a'r amgylchedd leol.

B7 SAFLEOEDD O BWYSIGRWYDD ARCHEOLEGOL - Gwrthod cynigion fydd yn difrodi neu ddifetha gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (boed yn rhai cofrestredig ai pheidio) neu eu gosodiad. Gwrthodir hefyd datblygiad fydd yn effeithio ar weddillion archeolegol eraill oni bai bod yr angen am y datblygiad yn drech nag arwyddocâd y gweddillion archeolegol.

B8 ARDALOEDD O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) LLŶN A MÔN - Gwarchod, cynnal a gwella cymeriad yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol drwy sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig y safle yn unol â gofynion statudol Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

B12 GWARCHOD TIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL - Gwarchod tirweddau, parciau a gerddi ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru rhag datblygiadau a fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i'w cymeriad, eu hedrychiad neu eu gosodiad.

B17 GWARCHOD SAFLEOEDD O ARWYDDOCAD RHANBARTHOL NEU LEOL - Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i safleoedd o arwyddocâd rhanbarthol neu leol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod, hyrwyddo a rheoli nodweddion cydnabyddedig y safleoedd.

B20 RHYWOGAETHAU A'U CYNEFINOEDD SY'N BWYSIG YN RHYNGWLADOL A CHENEDLAETHOL - Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol i rywogaethau a warchodir a'u cynefinoedd oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion cydnabyddedig y safle.

B22 DYLUNIAD ADEILADAU - Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd lleol.

B23 MWYNDERAU - Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

B25 DEUNYDDIAU ADEILADU - Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

B27 CYNLLUNIAU TIRLUNIO - Sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirlunio meddal/caled o safon uchel sy'n briodol ar gyfer y safle ac sy'n ystyried cyfres o ffactorau sy'n anelu i osgoi niwed i nodweddion cydnabyddedig.

B34 LLYGREDD GOLAU A GOLEUNI - Sicrhau nad yw cynigion yn amharu'n sylweddol ar amwynder defnydd tir cyfagos a'r amgylchedd.

C1 LLEOLI DATBLYGIAD NEWYDD - Tir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf ddatblygedig pentrefi gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol

newydd yng nghefn gwlad ar wahân i ddatblygiad sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun.

C27 CYNLLUNIAU YNNI ADNEWYDDADWY A CHYNALIADWY - Caniatáu cynigion am gynlluniau ynni adnewyddadwy a rheoli ynni cyn belled ag y gellir cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn ymwneud ag effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol.

C28 DIOGELU TIR AMAETHYDDOL - Gwrthodir cynigion a fyddai'n arwain at golli tir amaethyddol graddau 1, 2 neu 3a oni ellir dangos bod angen hollbwysig am y datblygiad, y gellir profi nad oes tir a ddatblygwyd o'r blaen ar gael ac nad oes tir o raddau amaethyddol is ar gael heblaw tir ag iddo werth amgylcheddol sy'n gorbwyso ystyriaethau amaethyddol.

CH33 DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD - Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

Adroddiad Terfynol Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri (Mawrth 2014)

**2.3 Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7 Gorffennaf 2014)
Nodyn Cyngor Technegol 8: Ynni Adnewyddadwy (2005)
Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2014)

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C15/0372/40/SC - Cais am farn sgrinio ar gyfer y bwriad. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen asesiad effaith amgylcheddol ar gyfer y bwriad.

C15/0754/40/SC – Cais diwygiedig am sgrinio gyda man newidiadau i'r caeau. Eto dim angen asesiad effaith amgylcheddol ar gyfer y bwriad.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
| --- | --- |
| Cyngor Cymuned/Tref: | Cefnogi. Angen sicrhau nad yw'r datblygiad yn ffinio yn rhy agos at Bwll Gro. Angen cadarnhad o'r 'planning gain' hynny yw, pwy fydd y pwyllgor lleol sydd yn gyfrifol am ddosbarthu'r arian i'r gymuned. |
| Uned Drafnidiaeth: | Dim gwrthwynebiad i'r bwriad. Argymhellir amodau a nodiadau safonol gan gynnwys yr angen i gytuno mesuriadau rheoli traffig ac arolwg cyflwr ffordd cyn cychwyn ar unrhyw waith ar y safle. |
| Uned Risg Llifogydd ac Erydiad: | Awgrymu amodau i ddiogelu cyrsiau dwr er mwyn gwarchod mwynderau cyfagos. |
| Uned Bioamrywiaeth: | • Dim effaith ar Safle Bywyd Gwyllt, Ty'n Coed gyfochrog.<br>• Ni ddarganfuwyd rhywogaethau arwyddocaol ar y safle, datblygiad felly yn annhebygol o gael effaith ar rywogaethau pwysig.<br>• Pwysig bod mesurau i sicrhau na fydd ymlediad yn y |

chwyn Rhedyn dwr a ddarganfuwyd ar y safle.

- Cynllun tirlunio'r cais wedi dynodi 'Cae 'E' ar gyfer bioamrywiaeth gyda'r bwriad i'w hadu gyda blodau gwyllt. Awgrymu y byddai'n fwy addas ei adael i dyfu'n naturiol ac na ddylid ei bori am o leiaf blwyddyn.
- Pwysig bod y ffens ddiogelwch gyda bylchau isel i adael mynediad i famaliaid.
- Dylai'r system oleuo fod yn addas i leihau effaith ar glwydfan ystlumod sydd yn y cyffiniau.
- Gwaith tyllu pridd yn ofynnol i greu ffosydd i'r ceblau trydan ac i ardal y compownd. Dylid cyflwyno datganiad dull a phridd.
- Nifer o gyrsiau dwr ar y safle, angen gofalu bod ansawdd y dŵr yn cael ei gynnal yn ystod y gwaith adeiladu.
- Angen mwyhad bioamrywiaeth a monitro.
- Bydd y datblygiad 11ha yn achosi colli rhannau o laswelltir corsiog. Os bydd mesurau yn cael eu cymryd i adael i'r cynefinoedd ail sefydlu yna dim ond effaith dros dro a ddisgwylir.
- Awgrymir bod y datblygiad yn darparu safle arall ar gyfer creu cynefin bioamrywiaeth arall megis cae cyfochrog, fel coetir neu ddol flodau.
- Awgrymir 5 amod:
    - Y dylid cyflwyno Cynllun rheolaeth dwr wyneb
    - Y dylid cyflwyno Cynllun Rheolaeth Bioamrywiaeth
    - Dim gwaith na chlirio i gymryd lle yn ystod y cyfnod nythu (1 Ebrill – 1 Awst).
    - Cyflwyno manylion y ffens ddiogelwch
    - Cyflwyno manylion am y system oleuo.

Dŵr Cymru: Dim sylwadau.

Cyfoeth Naturiol Cymru:

Ecoleg:

Mae CNC yn ystyried asesiad Avian Ecology (Gorffennaf 2015) yn foddhaol ac yn cytuno efo'u casgliad. Fodd bynnag, er ei fod yn cyfeirio at gofnod ystlumod yn yr ardal, nid yw'n cyfeirio at eu lleoliad na statws presennol. Mae gan CNC gofnod hanesyddol (1988) bod clwydfan o 40 ystlum clustiog yn adeilad allanol Fferm Tyn Coed sydd oddeutu 170m o ffin derfyn y safle a thail yn nho'r ffermdy. Bydd angen mwy o asesiad o'r glwydfan hon i ganfod os caiff y datblygiad hwn effaith ar y nythfa. Dylai casgliad yr asesiad gyfarfod gyda chaniatâd yr awdurdod lleol, mewn ymgynghoriad gyda CNC.

Risg Llifogydd a Draenio:

Mae CNC wedi adolygu'r Strategaeth Ddraenio (PFA Consulting: Gorffennaf 2015) gyflwynwyd. Mae'r ddogfen hefyd yn ystyried risg llifogydd o'r datblygiad sydd yn llwyr

o fewn parth A, mapiau NCT 15 Datblygu a Pherygl o lifogydd (2004). Rydym yn fodlon bod modd rheoli'r risg o lifogydd a draenio ac yn nodi bod y ffosydd presennol yn mynd i gael eu defnyddio a bod technegau draenio cynaliadwy yn mynd i gael eu mabwysiadu. Cytunir hefyd bod y tir a gywasgir yn ystod y cyfnod datblygu yn mynd i gael ei lyfnu a'i hadu. Bydd unrhyw gwlfert yn destun Caniatâd Amddiffyn Llifogydd, a reolir gan y Cyngor.

Tirlun:
Byddai'r fferm solar o fewn 2km i'r de o'r AHNE Llyn ac o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llyn ac Ynys Enlli. Saif y safle o fewn llwyfandir isel tonnog o gaeau gwellt a chorsydd caeedig anghyson wedi eu ffinio gan goed a gwrychoedd. Mae dyffryn coediog Afon Erch i'r gogledd o'r safle. Mae'r llwyfandir yn dir gyda thir caeedig gweledol cryf gydag ambell olygfa o fryniau'r AHNE. Mae'r golygfeydd o'r safle o'r AHNE yn bell ac eang. Mae'r coedwigoedd, coed a gwrychoedd yn creu patrwm cryf yn y tirlun.

Mae'r Asesiad Tirlun ac Effaith Gweledol wedi ystyried golygfeydd i ac o'r AHNE ac o fewn y tirlun hanesyddol. O'r adolygiad nodir:

- Byddai'r datblygiad arfaethedig yn gorwedd yn isel mewn llwyfandir tonnog sydd wedi ei amgáu yn weledol gan wrychoedd, coed a choedwigoedd.
- Mae gwrychoedd ffiniau'r caeau yn amgáu'r safle yn weledol ond ceir bylchau tameidiog yn y tirweddu mewn mannau ble y bwriedir plannu gwrychoedd a choed i gau golygfeydd presennol o'r safle.
- Ragwelir effaith gweledol sylweddol o safbwynt golygfa 12 o'r ffordd sirol i'r gogledd o'r safle. Byddai'r mesurau lliniaru ddim yn sgrinio'r datblygiad yn llwyr o'r man hyn, ond yn lleihau ei effaith yn gymedrol
- O fewn y golygfeydd eraill i ac o'r AHNE a'r tirlun hanesyddol, byddai canlyniad y datblygiad yn fychan, dibwys neu ddim yn newid cymeriad yr ardal heb ddim effaith sylweddol.

Mae CNC yn fodlon gydag elfen tirlun y cais. Serch hynny, dylid gweithredu Cynllun Lliniaru Tirlun a dylid gosod amod bod rheolaeth ohono dros oes y datblygiad.

| | |
| --- | --- |
| Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd: | Cadarnhau bod yr asesiad archeolegol yn cwrdd â gofynion chynllunio/ proffesiynol. Cytunir a chanlyniadau asesiad y byddai'r datblygiad yn golygu addasiad i'r defnydd tir ac edrychiad y safle, ond ni fyddai'n cael effaith ar yr henebion, adeiladau rhestredig a aseswyd nac ar gymeriad a diddordeb y tirlun hanesyddol cofrestredig.<br><br>Datgan yr asesiad bod y borfa yn gorsiog ac felly gyda photensial cyfyngedig am dystiolaeth o feddiannaeth |

flaenorol. Mae datblygiadau solar yn y cyffiniau wedi adnabod nodweddion archeolegol ar diroedd ychydig uwch sydd wedi eu draenio'n well. Ar sail cymeriad y safle a chanlyniadau'r asesiad ni ystyrir bod angen gwaith maes pellach er mwyn gwneud penderfyniad cynllunio, ond mae'n briodol i fesurau lliniaru gael eu gosod i gydnabod fod potensial i dystiolaeth archeolegol gael ei ddarganfod yn ystod y gwaith adeiladu. Awgrymir felly fod amod rhaglen archeolegol yn cael ei gyflwyno cyn cychwyn y gwaith.

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd yn y wasg, ar fannau amrywiol o amgylch y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae cyfnod ymgynghori wedi dod i ben a derbyniwyd gohebiaeth yn cynnig sylwadau:

Sylwadau (Ymgyrch Ddiogelu Cymru Wledig)

- Datgan cefnogaeth gyffredinol gan y byddai yn cyfrannu'n i ynni adnewyddol lleol gydag effaith bychan ar y tirlun a mwynderau lleol.
- Ardal gyfochrog a'r ffordd sirol yn agored ac mae effeithlonrwydd y sgrin tirlunio yma yn hanfodol. Pryder bod y mesurau tirlunio yn mynd i gael eu gweithredu'n effeithiol dros gyfnod y prosiect, dylid ei orfodi.
- Pryder am effaith cronnus y datblygiadau hyn ar y grid trydan a ellir ei gynnal heb uwchraddio'r cysylltiadau trydan.

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae polisi C1 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud â lleoli datblygiad newydd, ac mae'n datgan mai tir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf ddatblygedig pentrefi gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad ar wahân i ddatblygiad sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun. Mae datblygiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n defnyddio adnoddau naturiol yn cael ei nodi yn benodol fel datblygiad a ellir fod yn addas ac sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun, ac felly ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio â gofynion y polisi yn y modd yma. Er hyn, ai'r polisi ymlaen i ddatgan fod adeiladau, adeiladwaith a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad yn cael eu rheoli yn llym a dylid sicrhau perthynas weledol dda rhyngddynt a datblygiadau presennol lle bynnag y bod modd, mae hyn yn cael ei asesu yn unol â'r polisïau perthnasol hynny isod.

5.2 Mae polisi C27 CDUG yn caniatáu cynigion am gynlluniau ynni adnewyddadwy cynaliadwy a rheoli ynni cyn belled ag y gellir cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn ymwneud ag effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol.

5.3 Mae maen prawf rhif 1 o'r polisi yn nodi na ddylai unrhyw fwriad olygu lleoli cynllun gyda chynhwysedd uwch na 5mw o fewn AHNE Llyn, neu na fyddai unrhyw gynllun sydd wedi cael ei leoli tu allan i AHNE Llyn yn achosi niwed arwyddocaol i'w osodiad neu osodiad AHNE Llyn/Môn neu Barc Cenedlaethol Eryri. Yn yr achos yma, nid yw'r bwriad wedi ei leoli o fewn AHNE Llyn; ond mae wedi ei leoli o fewn

2km o'r AHNE. Mae'r bwriad wedi ei leoli ar gaeau gwastad ac ar gaeau gyda llethr ysgafn i gyfeiriad y de ac, ar wahân i'r cae ger y fynedfa, wedi ei amgylchynu i raddau helaeth gan wrychoedd, cloddiau a choed aeddfed ar ffiniau'r caeau. Er y byddai'n bosibl gweld rhannau o'r datblygiad arfaethedig o fannau uwch o fewn yr AHNE, byddai hynny o bellter ac mae'n debygol mai yn ystod tymor y gaeaf y byddent yn fwyaf gweladwy pan fyddai'r coed wedi colli ei dail. Fodd bynnag, ni ystyrir y byddai'r bwriad yn achosi effaith arwyddocaol ar yr AHNE. Ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio gyda'r maen prawf 1 o bolisi C27.

5.4 Datgan maen prawf 2, C27 y dylai math, graddfa a dyluniad y datblygiad arfaethedig fod yn briodol o safbwynt safle, y lleoliad a'r effaith ar y dirwedd. Mae'r bwriad ar gyfer darparu paneli solar ar dir sy'n ymestyn am 11.56ha. Mae gwaith wedi ei wneud yn ddiweddar gan gwmni Gillespies ar ran y Cyngor yn asesu sensitifrwydd a chapasiti y dirwedd i ymdopi gyda mathau penodol o ddatblygiadau. Yn ôl y gwaith sydd wedi ei wneud, mae safle'r cais wedi ei leoli o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd G10 Llyn Canolog, ac ai'r gwaith ymlaen i ddatgan fod capasiti o fewn yr ardal yma y tu allan i'r AHNE ar gyfer datblygiadau ar lefel micro i fach sydd wedi eu lleoli'n dda. O dan ddiffiniad Gillespies, datblygiad graddfa fawr fyddai datblygiad 10 - 20 hectar. Datgan yr asesiad fod sensitifrwydd yn amrywio yn lleol o fewn yr Ardal Cymeriad Tirwedd, ac y dylid ystyried tystiolaeth sydd wedi cael ei gyflwyno ar geisiadau ynghyd ag asesiad swyddog achos o ymweld â'r safle cyn penderfynu os yw natur y safle yn gallu ymdopi gyda datblygiad ar raddfa fwy na'r hyn a argymhellir yng ngwaith Gillespies. O ystyried natur donnog y dirffurf a'r tirweddu presennol, credir bod capasiti yma i ymdopi ac integreiddio'r datblygiad graddfa fawr i'r dirwedd.

5.5 Cyflwynwyd Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol (ATEW) sy'n cynnwys ffotogyfosodiadau gyda'r cais. Mae'r ffotogyfosodiadau wedi eu tynnu o fannau agos ac o diroedd uwch o fewn yr AHNE. O uchel fannau'r AHNE byddai golygfeydd o'r datblygiad yn fychan, gyda choedlannau aeddfed, natur donnog y tir, gwrychoedd ffiniau'r caeau, aneddleoedd ac adeiladau gwasgaredig yn gymorth i integreiddio'r datblygiad i'r dirwedd oddi amgylch. Daw'r ATEW i'r canlyniad mai bychan (minor) fyddai'r effaith weledol o'r mwyafrif o'r golygfeydd a ddangosir, ar wahân i'r tir i'r gogledd o'r safle sy'n agored a gweladwy o'r ffordd sirol gyfochrog, ble mae bwriad i dirlunio. Er na fyddai plannu coed a gwrychoedd yn lleihau effaith weledol oddi fewn y safle, ystyrir y byddai'r plannu ar y terfyn gogleddol yn sicr yn gwella'r sefyllfa o du allan y safle. Rhagwelir y byddai'r tirweddu ychwanegol wedi iddo sefydlu yn lleihau effaith weledol y bwriad i raddau cymedrol. Rhoddwyd hefyd ystyriaeth i effaith gronnus y bwriad gyda safleoedd solar eraill, ond oherwydd y pellteroedd a natur y dirwedd ni chredir y byddai'r datblygiadau yn ffurfio'r un cyd-destun gweledol. Daw'r asesiad i'r casgliad y byddai'r datblygiad yn addas i osodiad a chymeriad y tirlun a'i fod yn cynnig mesurau lliniaru priodol yn nhermau mwynderau gweledol.

5.6 Ac eithrio o fannau agos ger y ffordd sirol gyfochrog, mae'r safle ar y cyfan yn eithaf cuddiedig o'r tu allan. Mae'n debyg oherwydd natur agored y ffin gogleddol bod effaith gweledol tebygol yn y tymor byr, ond byddai hyn ar y cyfan wedi eu crynhoi i fannau agos ger mynedfa'r safle. Gyda'r mesurau tirlunio sy'n cael eu cynnig ar hyd y ffin gogleddol, credir y byddai'r datblygiad gydag amser yn ymdoddi'n ddi-sylw i mewn i'r tirlun unwaith i'r tirlunio sefydlu. Ystyrir felly fod graddfa a dyluniad y datblygiad yn briodol i'r safle o safbwynt ei effaith ar y dirwedd, felly yn cydymffurfio a maen prawf 2 polisi C27.

5.7 Mae maen prawf rhif 3 o’r polisi yn nodi y dylai unrhyw gyfarpar atodol cysylltiedig fod wedi ei ddylunio a’i leoli mewn modd fydd yn lleddfu’r effaith weledol ar y dirwedd. Mae’r bwriad hwn yn cynnwys gosod 3 gorsaf gwrthdroi, un is-orsaf DNO, caban cwsmer ac ystafell reoli, gyda’r mwyafrif o’r cabanau i’w gorffen mewn lliw gwyrdd tywyll. Mae’r adeiladau yn amrywio o ran maint, ond ni ystyrir eu bod yn ormodol. Byddai’r strwythurau wedi eu rhannu i dri lleoliad ar y safle, sydd ar y cyfan yn fannau disylw ble ceir cefndir o wrychoedd presennol. Gellir rhoddi amod fod yr holl adeiladau/strwythurau o liw gwyrdd tywyll ac o ddeunydd sy’n adlewyrchu’r adeiladau amaethyddol a welir o gwmpas yr ardal. Bwriedir gosod ffens ddiogelwch hefyd i uchder o 2 fedr o gwmpas y safle ynghyd a chamerâu cylch cyfyng wedi eu lleoli ar bolion 2.5m o uchel. Mae’r ffens yn uchel ond wedi ei gwneud o ddeunydd addas sef pyst pren a weiren rhyngddynt. Ni ystyrir y byddai’r ffens na’r camerâu yn ychwanegu’n sylweddol at yr effaith weledol. Ar sail hyn, ystyrir fod y cyfarpar atodol yn addas ac na fyddai’n debygol o gael effaith sylweddol ar y dirwedd, felly mae’r bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion maen prawf 3 o bolisi C27.

5.8 Mae maen prawf rhif 4 yn nodi na ddylai unrhyw wifrau na phibellau uwchben cysylltiedig achosi unrhyw niwed arwyddocaol i ansawdd gweledol y dirwedd. Mae’r Datganiad Dylunio a Mynediad yn nodi nad oes unrhyw fwriad i osod gwifrau uwchben y ddaear, ac mai trwy geblau tan ddaearol bydd y paneli solar wedi eu cysylltu. Mae’r bwriad felly yn cydymffurfio â maen prawf 4 o Bolisi C27.

5.9 Mae maen prawf rhif 5 o’r polisi yn nodi na ddylai’r datblygiad arfaethedig beri cynnydd annerbyniol mewn lefelau sŵn, drewdod, llwch na nwyon. Nid yw natur y datblygiad yma yn golygu y bydd unrhyw gynnydd mewn sŵn, drewdod, llwch na nwyon. Mae’n bosib y bydd cyfnod o aflonyddwch lleol yn ystod y cyfnod adeiladu, ond nid yw hyn yn cael ei ystyried yn sylweddol. Ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio â gofynion maen prawf rhif 5 o bolisi C27.

5.10 Mae maen prawf rhif 6 o’r polisi yn nodi na ddylai’r bwriad achosi unrhyw niwed annerbyniol i systemau hydrolegol (dwr daear a dŵr wyneb) gan niweidio bioamrywiaeth. Mae nifer o ffosydd yn croesi’r tir ac mae rhai o’r caeau yn gorslyd. Mae CNC yn fodlon gyda strategaeth draenio a gyflwynwyd fel rhan o’r cais. Mae Uned Bioamrywiaeth y Cyngor yn nodi ei bod yn bwysig i gynnal ansawdd y dŵr yn y ffosydd a’r afonydd ac yn awgrymu y dylid cymryd mesurau i atal pridd gael ei olchi i’r cyrsiau dwr. Maent yn awgrymu bod Cynllun Rheoli Dŵr Wyneb a Chynllun Adeiladu Rheolaeth Amgylcheddol yn cael ei ddarparu sy’n cynnwys mesurau i arbed dŵr wyneb a phridd fynd i mewn i’r cwrs dwr. Ystyrir gyda’r manylion uchod a’r camau lliniaru tebygol, byddai’r bwriad yn dderbyniol i gydymffurfio a gofynion maen prawf rhif 6 o bolisi C27.

5.11 Mae maen prawf rhif 7 o’r polisi yn nodi na fydd datblygiad yn cynhyrchu lefelau traffig annerbyniol o ystyried ansawdd y ffyrdd a natur yr ardal oddi amgylch. Bydd lefelau uchaf o draffig wedi eu cyfyngu i’r cyfnod adeiladu a ddisgwylir i fod oddeutu 12 wythnos. Nid yw’r ffordd agosaf yn ffordd brysur iawn o ran lefelau trafnidiaeth felly nid yw’r bwriad yn debygol o achosi aflonyddwch sylweddol. Serch hynny, mae mesurau wedi eu cynnwys yn y Datganiad Trafnidiaeth sy’n manylu ar y dulliau cludo a rheoli trafnidiaeth yn ystod y gwaith datblygu. Os gweithredir yn unol â’r manylion a nodir yn y datganiad, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o agwedd lefelau trafnidiaeth ac yn cydymffurfio gyda gofynion polisi C27.

5.12 Ar sail yr uchod fe ystyrir y bwriad yn cydymffurfio a gofynion meini prawf polisi C27 CDUG.

5.13 Mae polisi C28 o'r CDUG yn ymwneud a diogelu tir amaethyddol a gwrthodir cynigion a fyddai'n arwain at golli tir amaethyddol graddau 1, 2 neu 3a oni ellir dangos bod angen hollbwysig am y datblygiad, y gellir profi nad oes tir a ddatblygwyd o'r blaen ar gael ac nad oes tir o raddau amaethyddol is ar gael heblaw tir ag iddo werth amgylcheddol sy'n gorbwyso ystyriaethau amaethyddol. Yn yr achos yma, mae adroddiad sydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais yn cadarnhau fod y tir yn ddosbarth 3b a 4 ac felly mae'r bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi C28 uchod.

5.14 Ar sail yr uchod, ystyrir felly fod egwyddor y bwriad yn dderbyniol a'i fod hefyd yn cyd-fynd gyda'r Polisi Strategol ar gyfer darparu ynni o ffynonellau adnewyddadwy.

**Mwynderau gweledol**

5.15 Mae Polisi B8 o'r Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn ymwneud gydag gwarchod, cynnal a gwella cymeriad yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol drwy sicrhau fod cynigion yn anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig y safle. Nid yw'r safle ei hun o fewn AHNE, ond mae tiroedd uwch yr AHNE oddeutu 2Km i ffwrdd. O asesu'r ffotogyfosodiadau a dynnwyd o'r AHNE tuag at y bwriad, nid oes pryder sylweddol am effeithio mwynderau gweledol yr AHNE gan y byddai'r datblygiad yn integreiddio ac ymdoddi'n dda i'r dirffurf bresennol. Gorwedd y safle hefyd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llyn ac Ynys Enlli. Bydd patrymau ffisegol y caeau yn cael eu cadw, a ni ragwelir mwy o effaith nag effaith leol ar Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llyn ac Ynys Enlli. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio Archeoleg Gwynedd yn fodlon na fydd y datblygiad yn newid nodweddion hanesyddol y safle ac ystyrir yr effaith yn ddibwys ar y dynodiad. Ystyrir felly fod y bwriad yn dderbyniol o agweddau polisïau B8 a B12 CDUG.

**Dyluniad a deunyddiau**

5.16 Mae polisi B22 a B25 CDUG yn hyrwyddo dyluniad adeiladu da a deunyddiau adeiladu addas er mwyn anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd lleol. Fel sydd eisoes wedi ei nodi, mae'r bwriad hefyd yn cynnwys codi adeiladau atodol i leoli'r cyfarpar technegol. Byddai'r adeiladau yn amrywio o ran maint ac maent wedi eu dangos i fod o orffeniad alwminiwm lliw gwyrdd, a ystyrir yn orffeniad addas i'r lleoliad gwledig hwn ac yn adlewyrchu adeiladau amaethyddol. Mae bwriad hefyd i osod ffens ddiogelwch a chamerâu cylch cyfyng. Ystyrir fod y cyfarpar atodol arfaethedig yn addas, yn parchu'r safle a chymeriad y dirwedd ac felly yn cydymffurfio a gofynion polisïau B22 a B25 CDUG.

**Tirlunio**

5.17 Mae polisi B27 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud gyda sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirlunio meddal/caled o safon uchel sy'n briodol ar gyfer y safle. Ar y cyfan mae mwyafrif o ffiniau'r safle gyda gorchudd o dirweddu presennol, o goed a gwrychoedd sy'n amrywio o ran maint ac ansawdd. Ceir rhes drwchus o goed aeddfed ar y ffin ddwyreiniol fyddai'n sgrin effeithiol i'r bwriad, serch hynny mae mannau gwan yn golygu ceir golygfeydd agored iawn o'r safle o gyfeiriad y ffordd sirol gyfochrog ar hyn o bryd. Mae'r Cynllun Lliniaru Tirlun a gyflwynwyd yn dangos bod bwriad i atgyfnerthu gwrych ffin ogleddol, ddwyreiniol a gorllewinol y cae agosaf at y lon yn ogystal â bwried hefyd i blannu rhes o blanhigion cynhenid i ffurfio gwrych o flaen y ffens ddiogelwch ger compownd mynedfa'r safle. Gwerthfawrogir y bydd y tirlunio'n debygol o gymryd amser i sefydlu a thyfu i raddau y byddai'n ffurfio sgrin effeithiol, serch hynny ystyrir fod y mesur hwn yn sicr o wella gwedd y safle yn y dirwedd. Bwriedir gadael yr ardal o dan y paneli solar i fod yn dir pori. Ystyrir fod y manylion tirlunio a gyflwynwyd yn dderbyniol ond

byddai angen cyflyno a chytuno ar gynllun rheolaeth tirlunio i sicrhau bod y tirlunio yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel dros oes y cynllun. Gyda'r amod uchod ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o agwedd polisi B27.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.18 Mae polisi B23 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud a diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol. Mae meini prawf y polisi yn gofyn am sicrhau preifatrwydd rhesymol i ddefnyddwyr eiddo gerllaw, sicrhau na fydd y datblygiad yn or-ddatblygiad o'r safle, na fydd y datblygiad yn ychwanegu at draffig na sŵn, fod y cynllun yn lleihau cyfleoedd i unigolion ymddwyn yn anghymdeithasol a bod dyluniad a chynllun allanol y datblygiad yn ystyried anghenion ei holl ddefnyddwyr posib.

5.19 Cyflwynwyd Datganiad o Ymlyniad Cymunedol gyda'r cais. Ymddengys bod y datblygwyr wedi ymgymryd â nifer o fesurau i hysbysebu'r gymuned leol o'r bwriad, gyda thrafodaethau gyda'r Cyngor Cymuned, taflenni i'r cyhoedd ac arddangosfa leol wedi cymryd lle. Nid oes unrhyw wrthwynebiad lleol wedi ei dderbyn ar y cais. Ni ystyrir y byddai'r bwriad yn cael effaith ar fwynderau'r eiddo preswyl agosaf, oherwydd natur y dirffurf a llystyfiant trwchus presennol sy'n gwahanu'r safle oddi wrth y cymdogion. Mae ymatebion i ymgynghoriad gan yr Uned Drafnidiaeth yn cadarnhau bod modd sicrhau rheoli llif traffig yn effeithiol. Er bod y safle yn sylweddol, ni ystyrir fod y bwriad yn golygu gor-ddatblygiad o'r safle yn yr achos yma, ac ystyrir mai dim ond rhannau o'r safle fyddai'n weladwy o'r tu allan. Ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion polisi B23 uchod.

5.20 Mae polisi B34 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud â llygredd golau a goleuni a'r angen i sicrhau nad yw cynigion yn amharu'n sylweddol ar amwynder defnydd tir cyfagos a'r amgylchedd. Mae'r polisi yma'n benodol yn ymwneud â chynlluniau golau, ond mae eglurhad y polisi hefyd yn cyfeirio at effaith llacharedd. Cyflwynwyd adroddiad astudiaeth fflachio a llacharedd. fel rhan o'r cais, sy'n datgan y gallai yr eiddo preswyl agosaf i ffin y cais brofi llycharedd. Serch hynny, o luniau awyr nodir bod ffin drwchus o goed aeddfed uchel yn gwahanu'r eiddo oddi wrth y safle fyddai'n debygol o rwystro problemau o'r fath. Byddai adlewyrchiadau yn bosibl ar ran o ffordd i'r gogledd ddwyrain o'r safle. Er hynny, byddai hyn ddim ond yn bosib am gyfnod o 20 munud mewn diwrnod, felly nid oes pryder sylweddol fod effaith llacharedd yn sylweddol nac yn niweidiol yn yr achos yma. Er hynny, bydd amod cynllunio yn cael ei osod ar unrhyw ganiatâd cynllunio i sicrhau fod y deunyddiau a ddefnyddir yn lleihau effaith llacharedd cymaint â phosib. Ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi B34 CDUG.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.21 Mae polisi CH33 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud a sicrhau diogelwch ar ffyrdd a strydoedd. Dim ond yn ystod cyfnod adeiladu'r fferm solar y disgwylir cynnydd mewn traffig ac mae Datganiad Trafnidiaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r cais darparu gwybodaeth ynglŷn â'r llwybr teithio, dull o reoli traffig â chynlluniau 'swept path analysis'. Bydd mynediad i'r safle oddi ar ffordd yr A499 o Gaernarfon a ffordd ddosbarth 3 Llwyndyrus sy'n ymestyn oddeutu 500m o'r gyffordd i fynediad y cae. Gan mai ffordd gul sengl sydd o'r gyffordd i safle'r cais bwriedir gosod system rheoli'r traffig ar y rhan hon o'r lon dros y cyfnod cludo ac adeiladu. Bydd hefyd angen lledu'r giât mynediad i'r cae i alluogi derbyn loriau HGV gan ei lleihau yn ôl i adwy amaethyddol yn dilyn gwaith adeiladu. Mae'r Uned Drafnidiaeth yn fodlon a'r bwriad o agwedd diogelwch ffyrdd ac yn argymell nodiadau safonol parthed ymgymryd gwaith ar ymyl glas ac i gytuno ar 'Gytundeb Traffig Anghyffredin' i warchod cyflwr y ffyrdd. Ar sail sylwadau'r Uned Drafnidiaeth, ni ystyrir y byddai'r

datblygiad yn achosi effaith andwyol ar ddiogelwch ffyrdd ac felly ystyrir yn cydymffurfio a gofynion polisi CH33 CDUG.

**Materion Cadwraeth ac Archeolegol**

5.22 Mae polisi B7 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn ymwneud â safleoedd o bwysigrwydd archeolegol, ac mae'n gwrthod cynigion fydd yn difrodi neu ddifetha gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (boed yn rhai cofrestredig ai pheidio) neu eu gosodiad. Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeoleg Gwynedd wedi gwerthuso'r Asesiad Treftadaeth a gyflwynwyd gyda'r cais ac yn fodlon gyda'i gynnwys. Oherwydd natur gorsiog a gwlyb y safle, byddai potensial isel a chyfyngedig am dystiolaeth archeolegol ar y safle ac felly ni ystyrir fod angen am unrhyw archwiliadau maes pellach. Er hynny awgrymir bod amod yn cael ei osod ar unrhyw ganiatâd bod rhaglen o waith archeolegol yn cael ei gyflwyno cyn dechrau'r gwaith i gytuno ar fesurau lliniaru pe darganfyddir olion archeolegol yn ystod y gwaith datblygu. Gwerthuswyd effaith tebygol y datblygiad ar osodiad heneb Carn Mynydd Carnguwch hefyd, sydd 2 km o'r safle. Nodwyd tra byddai modd gweld y datblygiad o bellter ehangach o'r Carn, byddai'r datblygiad ymysg nodweddion modern eraill, megis adeiladau fferm a llystyfiant ac yn annhebygol o gael effaith niweidiol arwyddocaol ar osodiad a golygfeydd o'r heneb. Ar sail sylwadau'r GCAC ystyrir fod y datblygiad yn cydymffurfio a pholisi B7 CDUG.

5.23 Mae polisi B3 yn gwarchod gosodiad adeiladau rhestredig. Mae'r safle wedi ei leoli o fewn 200m i dri beudy rhestredig gradd II Fferm Llwyndyrys ac o fewn 320m i Ffermdy Llwydyrus sydd yng ngradd II*. Oherwydd nodweddion y dopograffi, llystyfiant a lleoliad adeiladau fferm modern nid oes unrhyw rhyng-welededd rhwng y ffermdy hanesyddol II* Llwyndyrus a safle'r cais. Er y byddai'r adeiladwaith fferm rhestredig o fewn yr un cyd-destyn gweledol, ni ystyrir y byddai'r datblygiad yn newid perthynas yr adeiladwaith rhestredig gyda'r iard a'r tir amaethyddol cyfagos. Byddai'r paneli yn cael ei gosod o fewn terfynau gwyrdd y caeau presennol heb newidiadau arwyddocaol i batrwm caeau na gosodiad o fewn fframwaith amaethyddol presennol. Ni ystyrir y byddai'r datblygiad yn arwain at ddifrïo gosodiad a pherthynas yr adeiladau rhestredig a'r tir amaethyddol cyfagos. Ystyrir felly fod y bwriad yn dderbyniol o agwedd polisi B3 CDUG.

**Materion bioamrywiaeth**

5.24 Cyflwynwyd adroddiad ecolegol fel rhan o'r cais ac fe aseswyd ei gynnwys gan yr Uned Bioamrywiaeth a Chyfoeth Naturiol Cymru. Datganwyd pryderon gan CNC am botensial effaith ar glwydfan ystlumod o fewn 170m i'r safle. Mae'r Swyddog Bioamrywiaeth wedi cyflwyno sylwadau trylwyr am faterion bioamrywiaeth yn dilyn ei hymweliad a'r safle, gan gynnig cyngor ac argymhellion. Ni ddarganfuwyd unrhyw rywogaethau gwarchodedig ar y safle, felly ni ystyrir bod angen cyflwyno gwybodaeth bellach ar gyfer CNC. Byddai'r amod i reoli goleuni'r safle yn fesur digonol i warchod buddiannau'r ystlumod. Mae'r cynllun yn cynnwys cae penodol i fioamrywiaeth, er hynny awgryma'r Swyddog Bioamrywiaeth bod cae arall yn cael ei gynnig heb baneli ar gyfer sefydlu coetir neu ddôl flodau. Nid yw'n rhesymol gofyn am gae bioamrywiaeth atodol, gan y byddai'n rhaid ei ddarparu tu allan i safle'n cais ac ar dir tu hwnt i reolaeth y datblygwr. Ar y cyfan, cesglir y byddai'r bwriad yn debygol o achosi colled cymedrol i fioamrywiaeth ar lefel lleol am gyfnod dros dro yn unig. Maent yn awgrymu fod mesurau lliniaru ac amodau cynllunio yn cael eu cynnwys i sicrhau yr effaith lleiaf posib i fioamrywiaeth. Yn sgil eu sylwadau, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o agwedd bioamrywiaeth ac na fyddai'n cael effaith andwyol ar rywogaethau gwarchodedig na'i cynefinoedd os y gweithredir yn unol a'r amodau a gynnigir. Mae'r bwriad felly yn dderbyniol o safbwynt Polisi B20.

5.25 Mae'r safle wedi ei leoli gyfochrog a darpar Safle Bywyd Gwyllt 493 (ger Tyn Coed) sydd wedi ei ddynodi oherwydd ei borfa frwynaidd. Mae'r Uned Bioamrywiaeth yn fodlon na fydd y datblygiad yn cael unrhyw effaith ar y safle Bywyd Gwyllt hwn ac felly ystyrir yn cydymffurfio gyda Pholisi B17 CDUG.

## 6. Casgliadau:

6.1 O ganlyniad i'r asesiad uchod, ni ystyrir fod y bwriad yn groes i unrhyw un o'r polisïau a drafodwyd ac nid oes unrhyw fater cynllunio perthnasol arall sy'n datgan i'r gwrthwyneb. Ystyrir felly fod y bwriad yn dderbyniol i'w ganiatáu yn ddarostyngedig i amodau cynllunio perthnasol.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Caniatáu – amodau

1. 5 mlynedd
2. Cwblhau'r datblygiad yn unol â'r cynlluniau
3. Rhaid lleoli'r paneli yn y lleoliadau a ddangosir ar y cynlluniau neu fel y cytunwyd mewn ysgrifen gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol
4. Cytuno deunyddiau allanol yr holl adeiladau, ffens a pholion camerâu
5. Cytuno deunyddiau/lliwiau'r fframiau a'r gorchudd di-llachAredd.
6. Ymgymryd â'r gwaith yn unol gyda'r cynllun tirlunio yn y tymor plannu cyntaf ar ôl cychwyn.
7. Cyflwyno a chytuno ar gynllun rheolaeth tirlunio hir dymor.
8. Amodau priffyrdd
9. Cynllun rheoli llif ac amseroedd traffig gwaith
10. Amodau bioamrywiaeth – sy'n cynnwys, cyflwyno cynllun Dwr Wyneb, cyflwyno Cynllun Rheoli Bioamrywiaeth, dim clirio yn ystod y cyfnod nythu, cytuno manylion y ffens a chytuno ar gynllun goleuo.
11. Cyflwyno rhaglen archeolegol cyn dechrau'r gwaith.
12. Dylid gosod unrhyw geblau trydan o'r datblygiad i'r cysylltiad trydanol o dan ddaear ac fel y'i cytunir yn gyntaf gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.
13. O fewn 12 mis i'r paneli solar a ganiateir drwy hyn beidio cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu trydan, rhaid eu tynnu'n barhaol oddi ar y tir ac adfer y safle yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol.
14. Diogelu cyrsiau dwr.
15. Gweithredu'n unol a'r Strategaeth Ddraenio.